

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

## Atodiad 1 - Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

### Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Rydym yn holi eich barn ar y cynigion manwl i sefydlu system newydd i Weinidogion Cymru brosesu 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Mae hwn yn categori newydd ar gyfer ceisiadau cynllunio.

**Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 12/08/2015.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at: [planconsultations-g@wales.gsi.gov.uk](mailto:planconsultations-g@wales.gsi.gov.uk) neu ffonio Lewis Thomas ar 029 2082 3201.

#### Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion yn yr ymgynghoriad hwn. Gall staff eraill Llywodraeth Cymru weld eich ymateb hefyd gan y bydd yn eu helpu nhw i lunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Ein bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel rheol, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi ynghyd â'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych am inni gyhoeddi eich enw neu gyfeiriad, dywedwch hynny wrthym yn ysgrifenedig pan anfonwch eich ymateb. Byddwn yn dileu eu henwau.

Mae'n bosib y bydd yr enwau neu'r cyfeiriadau yr ydym yn eu dileu yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol, er nad ydym yn credu y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn i weld gwybodaeth sydd heb ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn i weld gwybodaeth yr ydym wedi ei gadw yn ôl, bydd yn rhaid inni benderfynu a ddylem ei datgelu ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i beidio â chyhoeddi eu henw neu eu cyfeiriad, mae hynny'n elfen bwysig y byddwn yn ei hystyried. Fodd bynnag, mae'n bosib, weithiau bod rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid inni gyhoeddi enw a chyfeiriad rhywun, er eu bod wedi gofyn inni beidio. Byddem yn cysylltu â'r person hwnnw a holi eu barn cyn inni benderfynu'n derfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol		
Dyddiad y cyfnod ymgynghori: 20/05/2015 – 12/08/2015		
<b>Enw</b>	Rhian Jardine	
<b>Sefydliad</b>	Cyfoeth Naturiol Cymru	
<b>Cyfeiriad</b>		
<b>Cyfeiriad e-bost</b>	rhian.jardine@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk	
<b>Math o gorff</b> ( <i>dewiswch un o'r canlynol</i> )	Busnesau/ Ymgynghorwyr	<input type="checkbox"/>
	Awdurdodau Cynllunio Lleol	<input type="checkbox"/>
	Asiantaethau y Llywodraeth/Sector Cyhoeddus Arall	<input checked="" type="checkbox"/>
	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant	<input type="checkbox"/>
	Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, sefydliadau crefyddol di-elw)	<input type="checkbox"/>
	Arall (grwpiau eraill sydd heb eu rhestru uchod) neu unigolyn	<input type="checkbox"/>

C1	Ydych chi'n cytuno â'r trothwyon a'r categorïau datblygu arfaethedig a nodir yn y tabl uchod? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r trothwyon a'r categorïau datblygu a gynigir. Rydym yn cydnabod y gallai rhagor o gategorïau datblygu gael eu cynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wrth iddo ddatblygu. Rydym yn croesawu'r bwriad i ddal i adolygu'r categorïau ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylid nodi adnoddau gwaredu daearegol ar gyfer gwastraff gweithgaredd uwch fel categori ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar hyn o bryd gan fod hyn yn fath o ddatblygiad sy'n gallu codi problemau o arwyddocâd cenedlaethol.

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

<b>C2</b>	Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig hwn o benderfynu ar gydsyniadau eilaidd? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Sylwadau:  <b>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r dull o benderfynu ar ganiatadau eilaidd.</b></p> <p><b>Byddwn yn croesawu darpariaeth yn y canllawiau ynghylch sut y dylai ymgeiswyr ystyried y gweithdrefnau Asesiadau Effeithiau Amgylcheddol, Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn codi o gyflwyno ceisiadau cysylltiedig am ganiatadau'r un pryd â chais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Rydym o'r farn y dylid ystyried y prosesau hyn ar gyfer y prosiect cyfan (y cais Datblygiad o Arwyddocad Cenedlaethol a chaniatadau cysylltiedig) pan fydd ceisiadau am ganiatadau cysylltiedig yn rhan annatod o'r prif brosiect.</b></p> <p><b>O ran y broses Asesiad Effeithiau Amgylcheddol, rydym o'r farn na ddylid cychwyn ar brif brosiect nes bod yr holl ddatblygiadau cysylltiedig wedi cael eu hystyried mewn un Asesiad Effeithiau Amgylcheddol. Hefyd, o ran y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, rydym o'r farn y dylid defnyddio'r profion cyfun ar gyfer pob cais am drwydded sy'n gysylltiedig â'r prif gais am Ddatblygiad o Arwyddocad Cenedlaethol.</b></p> <p><b>Rydym hefyd o'r farn fod gofyn cael proses glir ynghylch amseru trwyddedau sy'n gysylltiedig â chais Datblygiad o Arwyddocad Cenedlaethol y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu arno. Rydym hefyd yn ystyried y dylid annog ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau cysylltiedig am ganiatadau'r un pryd â'r cais am Ddatblygiad o Arwyddocad Cenedlaethol. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu cyfle i gefnogi datblygu canllawiau gyda Llywodraeth Cymru yn ein swyddogaeth fel ymgynghorai statudol ar y materion hyn.</b></p>				

<b>C3</b>	Ydych chi'n cytuno y gallai'r Arolygydd benderfynu ar weithdrefn ar gyfer cydsyniadau eilaidd? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Sylwadau:  <b>Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhwy sylw pellach i'w gyflwno ar y mater hwn.</b></p>				

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

<b>C4</b>	Ydych chi'n cytuno â'r rhestr arfaethedig o gydsyniadau eilaidd? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Sylwadau:  <b>Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhwy sylw pellach i'w gyflwno ar y mater hwn.</b></p>				

<b>C5</b>	Ydych chi'n cytuno â'r gofynion sylfaenol o ran hysbysu Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Sylwadau:  <b>Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at Asesiad Effeithiau Amgylcheddol yn y rhestr o ofynion. Fodd bynnag, byddwn yn argymhell y dylai'r gofynion hysbysu hefyd gynnwys y dylai'r ymgeisydd hysbysu'r Arolygaeth Cynllunio pan fydd cais ger neu o fewn Safle Ewropeaidd neu'n effeithio ar Rywogaethau o dan Warchodaeth Ewropeaidd a / neu pan fydd ger neu o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Byddai'r maen prawf ychwanegol hwn yn dangos yn gynnar ac yn glir i'r Arolygaeth Cynllunio a fyddai angen Asesiad Effeithiau Amgylcheddol a / neu Asesiad Addas a / neu drwydded Rhywogaeth o dan Warchodaeth Ewropeaidd.</b></p>				

<b>C6</b>	A yw 12 mis o'r dyddiad y derbyniwyd yr hysbysiad bod y cais am Ddatblygiad wedi'i gyflwyno yn gyfnod digonol i'r hysbysiad o Ddatblygiad fod yn ddilys? Os nad ydyw, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Sylwadau:  <b>Er ein bod yn cydnabod ei bod yn fuddiol rhoi cyfnod penodol i bob rhanddeiliad ar gyfer ymgynghori cyn cais, ein profiad ni gyda Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yw ei bod wedi cymryd, mewn rhai achosion, dair blynedd a mwy i gasglu tystiolaeth cyn cyflwyno cais am brosiect i'r Arolygaeth Cynllunio. Rydym o'r farn bod y cyfnod 12 mis cyn cais yn ddigonol cyn belled â bod y canllawiau yn cael eu paratoi i gynnig cyngor clir i ymgeiswyr y dylai'r trafodaethau cyn cais â'r ymgynghoreion statudol gychwyn cyn y cyfnod hysbysu.</b></p>				

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

**Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n datblygu prosiectws cyn cais ar gyfer ymwelwyr a fydd yn dangos y gwasanaeth y gallwn ni ei gynnig yn ystod y cyfnod cyn cais a hefyd pa wybodaeth y byddwn yn ei ddisgwyl gan ymgeiswyr i'n galluogi ni i ddarparu gwasanaeth cyn cais i gyfarfod ag amserlen ymgeisio Datblygiadau o Arwyddocad Cenedlaethol.**

<b>C7</b>	Ydych chi'n cytuno â'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd ac ymgynghori y mae'n rhaid i ddatblygwyr eu bodloni cyn cyflwyno cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu egwyddorion cyhoeddusrwydd cyn cais a'r gofynion ynghylch ymgynghori. Fel y nodir yn ein hateb i Gwestiwn 6, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n datblygu prosiectws cyn cais yn dangos pa wybodaeth y byddwn ni'n ei ddisgwyl gan ymgeiswyr ac yn dangos hefyd y gwasanaeth y gallwn ei gynnig. Er bod paragraff 4.15 o'r ddogfen ymgynghori'n nodi na fydd yr ymgeisydd yn gallu cynnal unrhyw drafodaethau ffurfiol cyn cais gydag ymgynghoreion statudol cyn y cyfnod hysbysu, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydnabod y dylai, ac y bydd, ymgynghoriadau anffurfiol gael eu cynnal. Mae paragraff 4.11 yn nodi y gellir gofyn am wasanaethau cyn cais cyn hysbysu'r cais. Rydym o'r farn y dylai'r canllawiau ddatgan yn glir y dylai ymgeiswyr gynnal trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru pan fydd prosiectau'n dechrau cael eu hystyried. Bydd hyn o help i nodi, gynted ag y bo modd, y problemau a allai godi gan roi cyfle i'w datrys fel y gall y datblygiad symud ymlaen. Bydd hefyd yn gyfle i ddangos yn glir unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol na ellir eu lliniaru na gwneud iawn amdanyn nhw.**

**Rydym yn croesawu'r cyfnod o 28 diwrnod a gynigir i ymgynghoreion statudol ymateb i ymgynghoriad cyn cais. Fodd bynnag, fel y dangosir yn ein hymateb i' ymgynghori ynghylch 'Rhoi Mwy o Bwyslais ar Gamau Rhagarweiniol y System Rheoli Datblygu', rydym yn argymhell y bydd angen digon o amser i allu ystyried yn llawn yr wybodaeth dechnegol ychwanegol a gyflwynir, a allai gynnwys Adroddiadau Amgylcheddol. Rydym ni, felly, yn argymhell y dylai'r cyfnod ymateb fod o leiaf 42 diwrnod pan fydd Asesiad Effeithiau Amgylcheddol hefyd yn cael ei gyflwyno gyda chais Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.**

**Er mwyn sicrhau y gall ymgynghoreion fanteisio i'r eithaf ar yr amser sydd ar gael i ymateb i ymgynghoriadau, dylai fersiynau electronig o bob cais a'r data i'w canlyn fod ar gael o ddiwrnod cyntaf y cyfnod ymgynghori. Dylai copïau caled o'r cynlluniau i ganlyn ceisiadau mawr hefyd fod ar gael i ymgynghoreion ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori.**

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

C8	Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer hysbysu cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Sylwadau: Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer hysbysebu ceisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.</p>				

C9	Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ynghylch datganiadau o dir cyffredin? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Sylwadau: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu mewn egwyddor y dull Datganiad o Dir Cyffredin. Mae'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei gynnig i'w groesawu a, gan nad oes reidrwydd i gyflwyno Datganiad o Dir Cyffredin o fewn pum wythnos o ddilysu, mae hynny'n rhoi llai o bwysau ar bartïon â diddordeb i gytuno ar ddatganiad pan, efallai, nad ydyn nhw mewn sefyllfa i allu gwneud hynny.</p> <p>Rydym ni hefyd yn cefnogi'r pwyslais ar gofnodi statws trafodaethau ynghylch tir cyffredin yn yr adran datganiad adran 106.</p>				

C10	Ydych chi'n ystyried 5 wythnos yn gyfnod priodol i ymgynghoreion statudol ac unrhyw drydydd parti gyflwyno eu sylwadau yn llawn i ymateb i gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol? Os nad ydych, nodwch amserlen arall.	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Sylwadau: Rydym ni'n cydnabod y dylai rhoi pwyslais ar gamau rhagarweiniol yn y broses ymgeisio am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol sicrhau y bydd y rhan fwyaf o'r problemau wedi'u setlo cyn y cyfnod ymgynghori ar ôl cyflwyno. O dan yr amgylchiadau hynny, rydym ni'n ystyried bod pum wythnos yn ddigon ar gyfer ymateb i ymgynghori. Fodd bynnag, os yw Asesiad Effeithiau Amgylcheddol yn cael ei gyflwyno gyda chais Datblygiad o Arwyddocad Cenedlaethol, ac os yw gwybodaeth newydd yn cael ei gyflwyno ynghylch problemau sydd wedi codi yn ystod y cyfnod cyn ymgeisio, dylai'r Arolygaeth Cynllunio (Cymru) gael mwy o ddisgresiwn i ganiatáu cyfnod hwy ar gyfer cyflwyno sylwadau llawn o dan yr</p>				

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

**amgylchiadau hynny.**

Mae newidiadau yn 2014 gan Senedd a Chyngor Ewrop i Gyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd 2011/92/EU - Aseiad effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd - y bydd angen eu trosi i ddeddfwriaeth Cymru a'r DU erbyn 2017, yn gofyn am gyfnod ymgynghori o 'ddim llai na 30 diwrnod', rydym ni'n awgrymu y dylid defnyddio'r cyfnod hwn fel y lleiaf posibl ar gyfer ymateb i ymgynghori ar ôl cyflwyno.

C11	Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddiwygio'r cynlluniau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Sylwadau:

Mae ein profiad ni o'r trefniadau presennol ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ein harwain i rybuddio yn erbyn un rownd o newidiadau i gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae angen hyblygrwydd yn ystod y broses i ganfod atebion ac i sicrhau y ceir y canlyniadau gorau y gellir yn rhesymol eu cael yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Ymhellach, rydym ni'n aml yn cael trafodaethau anffurfiol gyda datblygwyr ynghylch ceisiadau mawr, megis ynghylch perygl llifogydd, rhwng cyflwyno gwybodaeth yn ffurfiol ac ymgynghori'n ffurfiol. Rydym ni o'r farn y dylai'r cynigion yn yr ymgynghoriad ganiatáu dal i gynnal y math hyn o drafodaethau anffurfiol; dylid dal i ganiatáu datblygwyr i drafod yn anffurfiol gyda ni rhwng y ddau bwynt y cynigir y gall datblygwyr gyflwyno gwybodaeth a newidiadau i'r Arolygaeth Cynllunio (ymgynghori cyn cais ac ymgynghori ar ôl cyflwyno). Byddai hyn o help i osgoi canlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, gallai datblygwr gadarnhau gyda ni na fyddai ail ddylunio gosodiad safle yn seiliedig ar gyngor pobl eraill yn amharu ar yr hyn rydyn ni'n cynghori yn eu cylch, megis perygl llifogydd neu rywogaethau gwarchoddedig.

C12	Ydych chi'n cytuno bod 10 diwrnod gwaith wedi dod â chyfnod cynnig sylwadau i ben yn amser priodol i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu ar y drefn briodol i edrych ar gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol? Os nad ydych, nodwch amserlen arall.	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:

Rydym yn croesawu mewn egwyddor gyfnod o 10 diwrnod gwaith ar gyfer penderfynu pa weithdrefn i'w dilyn ar ôl gorffen ymgynghori a

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

**chyhoeddusrwydd. Rydym yn nodi, ac yn croesawu'n gyffredinol, y bydd y weithdrefn a fydd yn cael ei dewis yn seiliedig ar 'Arolygaeth Cynllunio Cymru: Meini prawf ar gyfer dewis gweithdrefn ar gyfer apeliadau a galw i mewn'.**

**Fodd bynnag, o gofio nad yw'n wybyddus ar hyn o bryd faint o lwyth gwaith fydd yn gysylltiedig â phroses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol rydym yn argymhell fod y cyfnod yn cael ei adolygu a'i newid yn ôl y gofyn yn seiliedig ar brofiad o weithredu'r broses.**

<b>C13</b>	Ydych chi'n cytuno bod angen i'r sylwadau pellach, fel rhan o'r broses o archwilio cais am Ddatblygiad, fod â chyfyngiad geiriau o 3,000 gair y pwnc? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Sylwadau:

Rydym yn deall yr awydd i gadw sylwadau mor gryno â phosibl. Fodd bynnag, nid ydym yn cefnogi gosod terfyn o 3000 gair ar bob pwnc. Byddai hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei godi os bydd problemau hynod o gymhleth yn dal heb eu datrys. Rydym ni o'r farn, yn hytrach na gosod terfyn mympwyol ar nifer y geiriau, a allai arwain at adael allan faterion ffeithiol ac allweddol, y dylid datgan mewn canllawiau i bartion â diddordeb y dylai sylwadau fod mor gryno â phosibl a nodi, fel awgrym yn unig, y dylid eu cadw o dan 3000 o eiriau os yn bosibl. Byddwn yn croesawu, yn ein swyddogaeth fel ymgynghorai statudol, gyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau ar hyn.

<b>C14</b>	Ydych chi'n cytuno mai copïau ar bapur yn unig ddylai'r ymgeisydd eu cyflwyno ar gyfer cais am Ddatblygiad i'r Arolygiaeth Gynllunio a'r Awdurdodau Cynllunio Lleol y mae'r Datblygiad wedi'i leoli ynddynt? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:

**Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach ar y mater hyn.**

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

--

<b>C15</b>	Ydych chi'n cytuno â'r gofynion sylfaenol ar gyfer Adroddiadau ar yr Effaith Leol. Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:  
**Rydym yn ystyried y dylid ychwanegu, at y gofynion ym mharagraff 4.9 faen prawf i Awdurdod Cynllunio Lleol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, yn enwedig ynghylch dynodiadau safleoedd gwarchoddedig a chyfyngiadau amgylcheddol eraill. Nid ydym o'r farn y dylem ni fod â rhan uniongyrchol mewn paratoi Adroddiad Effeithiau Lleol. Fodd bynnag, rydym yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol, os yw cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a chyngor Awdurdod Cynllunio Lleol yn gorgyffwrdd, y dylai canllawiau fod ar gael i Awdurdodau Cynllunio Lleol ynghylch pa wybodaeth amgylcheddol y gellir ei gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cyfnod casglu tystiolaeth o Adroddiad Effeithiau Lleol. Byddai hyn yn sicrhau sail tystiolaeth a dealltwriaeth gyffredin o effeithiau amgylcheddol. Byddwn yn croesawu cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol ynghylch sut y gellir trin gorgyffwrdd o'r fath wrth gasglu tystiolaeth amgylcheddol wrth baratoi Adroddiadau Effeithiau Lleol.**

<b>C16</b>	A fydech chi'n ystyried 5 wythnos yn gyfnod amser priodol i ddarparu adroddiad effaith lleol? Os nad ydych, awgrymwch amserlen briodol.	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:  
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau pellach ar y mater hwn.**

<b>C17</b>	Ydych chi'n cytuno y dylai strwythur ffioedd y Datblygiad gynnwys ffioedd cyfradd dyddiol neu fesul awr penodol i adfer costau Gweinidogion Cymru (a'u cynrychiolwyr penodedig, yr Arolygiaeth Cynllunio) wrth gyflawni'r gwaith? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:  
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau pellach ar y mater hwn.**

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

--

<b>C18</b>	Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol dderbyn ffi benodol am gynhyrchu Adroddiad Effaith Lleol? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:  
Er ein bod yn cytuno y dylai Awdurdod Cynllunio Lleol dderbyn ffi sefydlog am baratoi Adroddiad Effeithiau Lleol, byddwn, pan fyddwn ni wedi darparu cyngor i Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y cyfnod casglu tystiolaeth ar gyfer Adroddiad Effeithiau Lleol, yn croesawu darpariaeth i ni dderbyn cyfran o'r ffi sefydlog am ddarparu ein cyngor.

<b>C19</b>	Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol dderbyn taliad is, neu ddim taliad o gwbl, os nad ydynt yn cyflwyno'r Adroddiad Effaith Lleol o fewn yr amserlen a'r gofynion sylfaenol? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:  
Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylw ar y mater hwn.

<b>C20</b>	Ydych chi'n cytuno na ddylai'r ymgeisydd dderbyn ad-daliad llawn os yw eu cais yn annilys? Os nad ydych, pam?	Ydwyf	Ydwyf (yn amodol ar sylw pellach)	Nac ydwyf
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:  
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylw ar y mater hwn.**

<b>C21</b>	A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud o ran ein cynigion ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol?	Oes	Nagoes
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Sylwadau:  
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynigion yn yr ymgynghoriad ynghylch ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae yna rai meysydd yn y ddogfen ymgynghori y byddem yn croesawu rhagor o drafodaeth yn eu cylch gyda Llywodraeth Cymru, yr Arolygaeth Cynllunio (Cymru) a chyrff cyhoeddus eraill. Y materion hyn yw:-**

**Y dylai'r canllawiau annog ymgeiswyr, yn glir, i ddechrau trafod yn fuan gydag ymghyngoreion statudol a chynnwys datganiad clir i ymgeiswyr y dylid cychwyn ar drafodaethau cyn cais gydag ymghyngoreion statudol ar ddechrau prosiect ac wrth arwain at y cyfnod hysbysu;**

**Ystyried sut y dylid talu sylw i Aseidiadau Effeithiau Amgylcheddol, Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer prosiectau sydd, yn eu hanfod, yn gysylltiedig;**

**Gwerthuso meini prawf dilysu ar gyfer cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol er mwyn sicrhau fod digon o wybodaeth amgylcheddol yn y cais;**

**Tracio'n gyfochrog ganiatadau sy'n gysylltiedig â'r cais a phrosesau'r Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol;**

**Egluro o dan ba amgylchiadau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru adfer ei gostau wrth ddarparu cyngor anstatudol i ymgeiswyr. Ar hyn o bryd, does yna ddim trefniadau o gwbl i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i adfer costau sy'n gysylltiedig ag ystyried cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol;**

**Ein swyddogaeth o ran materion ar ôl penderfynu megis gorfodaeth amodau cynllunio a chytundebau adran 106;**

**Canllawiau ar gyfer terfyn ar nifer y geiriau mewn sylwadau pellach;**

**Rhan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses o baratoi Adroddiadau Effeithiau Lleol, gan gynnwys darparu tystiolaeth;**

**O ran y rhestr o ganiatadu eilaidd, rydym yn cyfeirio at y caniatadau a restrir o**

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

**dan Ddeddf Caffael Tir 1981 (Adrannau 19 a 28). Dylid cofio y gallai adran 13 (Ildio a diddymu hawl comin) ac adran 14 (Gwaredu statudol) o Ddeddf Tir Comin 2006 hefyd fod yn berthnasol ac y byddai gofyn newid y Gofrestr Tir Comin ar gyfer ildio / diddymu hawliau a dadgofrestru / cyfnewid tir i hynny fod yn gyfreithiol;**

**Nid ydym yn glir ai'r bwriad yw defnyddio hawliau o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 i brynu tir drwy orfodaeth ym mhob achos. Os nad dyna'r bwriad, byddai cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cynnwys arwynebedd mawr o gomin ar ucheldir (heb brynu'r tir yn orfodol) yn dod o dan adrannau 16 a 17 o Ddeddf Tir Comin 2006. Gallai Adran 13 o Ddeddf Tir Comin 2006 fod yn berthnasol os yw datblygwr yn prynu hawliau comin ac yna'n eu hildio o dan weithred ryddhau**

Nid wyf am i fy enw/neu gyfeiriad gael ei gyhoeddi gyda fy ymateb (ticiwch)

Cyfeiriad yr ymgynghoriad: LIC25023

## **Sut i Ymateb**

**Cyflwynwch eich sylwadau yn un o'r ffyrdd canlynol:**

<b>Ebost</b>
Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at : <a href="mailto:planconsultations-g@wales.gsi.gov.uk">planconsultations-g@wales.gsi.gov.uk</a> Nodwch 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol - LIC 25023' yn y llinell destun.
<b>Post</b>
Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at: <b>Ymgynghoriad ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol</b> <b>Y Gangen Penderfyniadau</b> <b>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio</b> <b>Llywodraeth Cynulliad Cymru</b> <b>Parc Cathays</b> <b>Caerdydd</b> <b>CF10 3NQ</b>
<b>Gwybodaeth ychwanegol</b>
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, cofiwch: ebostio: <a href="mailto:planconsultations-g@wales.gsi.gov.uk">planconsultations-g@wales.gsi.gov.uk</a> ; neu ffonio: Lewis Thomas ar 029 2082 3201